# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 4

CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

*Dileu Cynghorau Iechyd Cymuned etc.*

### 23 Dileu Cynghorau Iechyd Cymuned, a materion cysylltiedig

(1) Mae adran 182 o Ddeddf 2006, sy'n darparu ar gyfer parhau â Chynghorau Iechyd Cymuned neu eu sefydlu ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, wedi ei diddymu, ac mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned hynny wedi eu dileu.

(2) Mae Atodlen 10 i Ddeddf 2006, sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch Cynghorau Iechyd Cymuned, wedi ei diddymu hefyd.

(3) Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau, mewn cysylltiad â dileu Cynghorau Iechyd Cymuned.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 23 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** A. 23(1)(2) mewn grym ar 1.4.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 3(1)(q)**

**I3** A. 23(3) mewn grym ar 29.3.2023 gan O.S. 2023/370, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 23.